# Cynllun Gwers Dyddiadur Moron

**Oedran Arfaethedig:** Cyfnod Sylfaen

**Maes Dysgu:** Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

NFU CYMRU
Fferm Wyddoniaeth

## Cysylltiadau Cwricwlwm:

**Ystod** – Fi fy hun a phethau byw eraill

**Sgiliau** - nodi'r hyn y mae arnynt eisiau ei ddarganfod a nodi sut y mae gwneud hynny, meddwl am beth allai ddigwydd pe bai..., meddwl am sut y byddant yn gwybod bod rhywbeth wedi gweithio, gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion, llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau, cyfleu arsylwadau a mesuriadau, disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml, myfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a gwerthuso'r gwaith hwnnw.

## Amcanion Dysgu:

**I geisio tyfu moronen a chofnodi dull gwneud hynny.**

***Rhy anodd?*** I labeli'r rhannau gwahanol o'm arbrawf plannu moronen ac ymchwilio'r ffactorau sydd yn effeithio ar ei thyfiant.

***Rhy hawdd?*** Ceisio tyfu moronen, a disgrifio fy null i ddisgybl arall neu'r athro/awes.

O.N. Efallai bydd angen esbonio'r iaith wyddonol ('ffactorau').

**Geirfa Allweddol:**
Hedyn, Gwreiddyn, Deilen, Ffactor, Ymchwilio, Compost, Gwrtaith, Golau, Tywyllwch, Eginblanhigyn, Dull.

## Cyflwyniad:

Gwyliwch fideo 'Science Farm – Carrot DIary' ar www.nfu-cymru.org.uk. Rhowch grynodeb o'r fideo: Beth ddigwyddodd yn y fideo? Beth oedd yn cael ei dyfu? Beth wnaeth y ffermwr i helpu'r moron dyfu? Beth sydd angen ar blanhigion i dyfu? Athro/awes yn dangos sut i blannu hadau moron.

## Prif Sesiwn:

Dylai'r disgyblion ysgrifennu, darlunio neu esbonio'r camau ar lafar. Yn dilyn arddangosiad yr athro/awes, bydd y disgyblion yn creu dull sylfaenol ar gyfer yr arbrawf tyfu. Mae'r disgyblion yn cofnodi hyn yn eu dyddiadur moron.

Dylai'r plant nawr weithio mewn grwpiau bychain er mwyn plannu hadau'r moron a gosod allan wythnos 1 yn eu dyddiaduron.

***Ar gyfer y rhai byddai'n cael anhawster gyda'r weithgaredd uchod-***
Gallai'r athro/awes neu'r CD gynnal trafodaeth grwp ar sut fydd y dysgwyr yn plannu'r hadau. Gellid gofnodi hwn ar fideo neu gan greu nodiadau ar y cyd.

***Ar gyfer y rhai byddai'n cael y weithgaredd uchod yn rhy hawdd-***
Gall ddysgwyr mwy abl ddewis ffactor unigol er mwyn profi ei effaith ar dyfiant. Gellid ganolbwyntio ar nifer o ffactorau gan gynnwys: ychwanegu gwrtaith i'r pridd, lleoliad y planhigyn (ger y ffenest am fwy o haul o'i gymharu ag ardal gysgodol) neu faint o ddŵr mae'r planhigyn yn derbyn bob wythnos.

## Sesiwn Grynhoi:

Bydd y disgyblion yn darogan pa foronen fydd yn tyfu orau (ac yn bwysicach, pam). Gallai'r athro/awes ysgrifennu'r rhain i lawr a'u gosod mewn amlen neu eu recordio gyda recordydd sain neu fideo.

## Gweithgareddau Ymestynnol a syniadau ychwanegol:

- Bydd y dyddiadur moron yn galluogi i ddysgwyr gofnodi tyfiant y moron, bydd hyn yn cymryd tua 2 fis
- Gellid dyfu amrywiaeth helaeth o blanhigion yn y dosbarth, neu gellid defnyddio'r dyddiadur moron ar gyfer ardaloedd tyfu allanol.
- Mae cymharu data yn elfen hollbwysig o'r arbrawf hwn a gellir cynnal nifer fawr o brofion yn ystod y broses o dyfu ac wedi'r cynhaeafu: hyd y gwreiddiau, taldra'r eginblanhigion ar adegau penodol, melyster y moron, maint y moron, tymheredd yn y mannau tyfu gwahanol.